

# **CYMDEITHAS ERYRI - SNOWDONIA SOCIETY**

## **ANNUAL GENERAL MEETING**

**11 OCTOBER 2008**

### **ELECTRIC MOUNTAIN, LLANBERIS**

**(As Approved by the 2009 AGM)**

53 members were present with the President, John Disley, in the chair. Apologies were received from:- Elfyn Thomas, Victor Simons, Cedric Milner, Mike Cousins, Dan James, Tecwyn Vaughan Jones.

1 David Firth, chair of the Society, opened the meeting by explaining that the Director, Alun Pugh, was not able to be present because of serious family illness. The meeting also sent best wishes to Mike Cousins and Tecwyn Vaughan Jones, who were absent through illness.

2 The President welcomed members to the meeting and thanked all those who had been involved in the Society over the years.

#### **Minutes of the 2007 AGM**

3 David Firth apologised for the fact that the minutes of the last AGM were not available. The Executive Committee would consider the way forward taking into account any constitutional requirements; it might be that the minutes for both 2007 and 2008 would be taken at the next AGM.

#### **Chair's report**

4 David Firth started by thanking John Disley, who would be 80 next month, for his support to the Society. He also welcomed two vice-presidents, Eileen Evans and Warren Martin, and extended his thanks to officers, Trustees and all five staff for their work over the last year.

5 David reminded the AGM that he had explained in 2007 that there was a need to restructure the Society's staffing structure to create the post of an overall Director. This restructuring had now taken place; Alun Pugh had been appointed as Director and Rob Owen was now Operations Manager. Bea Kelsall and Emma Edwards Jones were both doing sterling work in their respective volunteer conservation and green tourism projects, as was Linda Campbell as Admin and Information Officer.

6 Two Trustees were standing down, Cedric Milner and Morag McGrath, though Morag would continue to edit the newsletter and magazine. It was difficult to attract new

Trustees, but David did not agree that the number of Trustees should be reduced. He felt that we needed to accommodate a complete range of expertise to take the Society forward over the next few years.

7 The Administration Sub-Committee had been felt unnecessary following the appointment of an overall Director, although there were now regular meetings between the Hon Officers and the Director. We intended to set up a new Membership and Promotions Sub-Committee to address the challenge of growing the membership of the Society.

8 David expressed thanks to all the Society's active volunteers, those who worked with Bea on the workdays she arranged and those who gave their time to tend the gardens at Ty Hyll.

9 We would need to look carefully at how we used Ty Hyll. Now that we had five members of staff we needed to provide good working accommodation for them, as well as meeting legal requirements. We also needed to put more effort into generating income if we wanted to continue our activities at the same level.

10 The future of Llanbedr airfield would continue to be significant. In the Q&A session at last year's AGM there had again been concern about aircraft noise and pressure from members to do something about this. In the past we had not managed to do anything about military flying from RAF Valley, but we had managed to dissuade a hotel from running helicopter rallies.

11 Against this background Trustees felt that we had to react to the proposal for a commercial airfield at Llanbedr. We suspected that the Welsh Assembly Government (WAG) had not given consideration to the fact that Llanbedr was in a National Park. In the 1995 Environment Act Section 62 required central government and other public bodies to have regard to National Park purposes. We did not think a commercial airfield was compatible with those purposes. We had not had satisfactory answers from the WAG as to what activity was proposed, and it appeared that there had not been discussion with senior National Park people. Part of the airfield was an SSSI, it was on the edge of a National Nature Reserve and an area designated by Europe as a Special Area of Conservation. These designations appeared to have been disregarded. We hoped that the WAG would agree to submit the case to proper scrutiny by applying for planning permission.

12 There had hitherto been one small success. The Welsh Assembly's Petitions Committee had considered the Society's E-petition expressing concern about the proposal, and had decided to hold a hearing on 16 October. This would give the Society the opportunity to make their case.

13 The Uplands Conference had been postponed from July until 28 March 2009. This would mean that more information on changes that would affect the uplands in Snowdonia would be available. John Lloyd Jones, Chair of the CCW, had agreed to chair

the conference and we hoped the conference would make a valuable contribution to the formation of policy on the uplands in Snowdonia.

14 Other activities included:

- a) a seminar on the Green Key was to be hosted by the NPA, with both County Councils present, on 28 October. We hoped to have an opportunity to influence thinking.
- b) on 14 November the NPA were due to present a draft management plan and draft Local Development Plan to the Eryri Forum. The draft LDP was long overdue and the NPA had effectively been without a workable plan;
- c) the website was being redesigned, and in future members would be able to join on-line;
- d) the Society was making a pension facility available to staff (as required for an organisation with five or more staff);
- e) a leaflet on the Park was being produced together with the NPA, with funding from CCW;
- f) we had put in three expressions of interest for funding from the NPA's CAE fund (for sustainable development); one was to look at reducing the carbon footprint of old buildings in Snowdonia, using Ty Hyll as an example; the second would work towards the elimination of plastic bags in the National Park, encouraging people to use other bags and promoting both the Society and the NPA; the third would research improved waste management by the tourist industry in Snowdonia.
- g) the opening of Hafod Eryri had been delayed until 2009; it was expected that there would be international as well as national interest.

15 David closed with some personal thoughts, after 30 years with the Society. He was still committed to Eryri and the Society; he hoped that membership would increase in future and regretted that the membership had not grown more. He was pleased that a number of new and returning Trustees were standing for election. He recalled that he had originally been inspired by Esme Kirby and was grateful to her. He also thanked several people for their help, including Aneurin Phillips, Caerwyn Roberts and David Archer. He hoped the good working relationship between the Society and the NPA would continue.

16. Sue Townsend commented on the issue of Llanbedr and why CPRW Meirionnydd had been ploughing its own furrow. They had given evidence to the Petitions Committee, and had also canvassed Elfyn Llwyd MP and Dafydd Elis-Thomas AM. They had not received clarity from the WAG; Ministers had cited the potential Judicial Review by the Society as a reason for not responding to questions. CPRW were in communication with the Deputy First Minister, who had invited them to identify specific issues we believed he should and should have taken into account as regards his Statutory

Duties in relation to the airfield proposals. CPRW had taken up this invitation and had asked if he was satisfied that the process undertaken in dealing the airfield proposals from the draft KPMG report, on the future of the airfield, to the proposals put forward for the sale and transfer of the airfield had been undertaken in accord with his statutory duties. She was awaiting a reply. However, the airfield was a brown-field site and was recognised in the '2008 Sustainable Regeneration Framework for the Central Wales Spatial Plan Area' as important to the regeneration of the Meirionnydd area.

17 In response David Firth stressed that the Society was not against development and was disappointed that there had not been a joint response in the first place. He recalled the success in opposing a bypass for the Padog Bends on the A5 where joint action had been successful, although the issue had not won the Society new members. David assured the meeting that the Society was working with others, but had had to act quickly as the signing of the 125-year lease on the airfield by Kemble had been imminent.

### **Treasurer's report**

18 Cyril Park briefly introduced his report. He did not dwell on the detail of established activities. He pointed out that development of the Society's activities had been achieved at the margin by realisation of capital gains on holdings. Until the end of the previous year that had been a prudent approach. But now financial turbulence had affected the portfolio; investments that had had a value of about £300k might now be valued at only £200k.

19 The Society could currently support its activities but a degree of discretion was needed. The portfolio comprised direct holdings in UK companies, based on the principle of long-term holdings. The Society had to a degree invested in UK banks and financial institutions, and this had proved the weakest investment, though hopefully this situation would improve. In response to a question, the Treasurer said that until the middle of that week the Society's portfolio had included a holding in AIG International, but this had now been realised on the advice of Barclays.

20 A motion to adopt the 2007/08 Annual report was proposed by Trefor Owen, seconded by Jeff Biggs, and agreed nem con.

### **Appointment of independent examiners**

21 A motion to appoint Tiernay Fedrick as the Society's independent examiners was proposed by Cyril Park, seconded by David Lewis, and passed nem con.

### **Election of officers**

22 The following were elected:

President - John Disley

Vice Presidents - Eileen Evans; Warren Martin, Sir Simon Jenkins, Sir John Houghton

Chair - David Lewis  
Vice-Chair - Margaret Thomas  
Secretary - Katherine Himsworth  
Treasurer - Pat Clayton

Executive Committee: Netti Collister, Rob Collister, Rod Gritten, Liz Roberts, David Firth

**Motion “That the Executive Committee be authorised to create a Charitable Incorporated Organisation in order to take forward the work of the Society and to report on progress to the 2009 AGM”**

24 David Firth explained that there was a need to limit the liabilities of the Trustees by moving the status of the Society to that of a Charitable Incorporated Organisation, for which enabling legislation had been passed. There had been a delay in the detailed proposals – the Executive Committee now needed to look at the current proposals out for consultation.

The motion was carried.

**Any Other Business**

25 There was no other business.

26 Finally Rob Owen made a statement in Welsh, thanking everybody for coming and supporting the Society, especially local people. Some felt that there was insufficient representation by local people in the Society, but all members were important whoever they were, and he wished to thank all the Trustees and volunteers, without whom the Society would be much the poorer.

John Disley then presented gifts to Cyril Park, who was retiring as Treasurer after 12 years, and to David Firth, who was retiring after a further 3 years as Chairman.

The meeting closed at 2.35.

October 2009

## **CYMDEITHAS ERYRI**

### **CYFARFOD BLYNYDDOL CYFFREDINOL**

**11 HYDREF 2008**

#### **MYNYDD GWEFRU, LLANBERIS**

Roedd 53 o aelodau'n bresennol gyda'r Llywydd, John Disley, yn y gadair. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Elfyn Thomas, Victor Simons, Cedric Milner, Mike Cousins, Dan James a Tecwyn Vaughan Jones.

1 Agorwyd y cyfarfod gan David Firth, cadeirydd y Gymdeithas, drwy egluro nad oedd y Cyfarwyddwr, Alun Pugh, yn gallu bod yn bresennol oherwydd salwch difrifol yn y teulu. Anfonwyd cyfarchion drwy gyfrwng y cyfarfod hefyd at Mike Cousins a Tecwyn Vaughan Jones gan eu bod yn absennol oherwydd salwch.

2 Rhoddodd y Llywydd groeso i'r aelodau i'r cyfarfod a diolchodd i bawb oedd wedi bod yn ymwneud â'r Gymdeithas dros y blynyddoedd.

#### **Cofnodion CBC 2007**

3 Ymddiheurodd David Firth am y ffaith nad oedd cofnodion y CBC diwethaf ar gael. Byddai'r Pwyllgor Gwaith yn ystyried y ffordd ymlaen gan ystyried unrhyw ofynion cyfansoddiadol; efallai y bydd cofnodion 2007 a 2008 yn cael eu derbyn yn y CBC nesaf.

#### **Adroddiad y Cadeirydd**

4 Cychwynnodd David Firth drwy ddiolch i John Disley, a fydd yn 80 y mis nesaf, am ei gefnogaeth i'r Gymdeithas. Rhoddodd groeso hefyd i ddau is-lywydd, Eileen Evans ac Warren Martin, ac estynnodd ei ddiolch i swyddogion, Ymddiriedolwyr a'r pum aelod o staff am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf.

5 Atgoffodd David y CBC ei fod wedi egluro yn 2007 bod angen ailstrwythuro strwythur staff y Gymdeithas i greu'r swydd o Gyfarwyddwr. Roedd yr ailstrwythuro hwn bellach wedi digwydd; penodwyd Alun Pugh fel Cyfarwyddwr ac roedd Rob Owen bellach yn Rheolwr Gweithrediadau. Roedd Bea Kelsall ac Emma Edwards Jones yn gwneud gwaith ardderchog yn eu projectau cadwraeth gwirfoddolwyr a thwristiaeth werdd, yn ogystal â Linda Campbell fel Swyddog Gweinyddol a Gwybodaeth.

6 Roedd dau Ymddiriedolwr, Cedric Milner a Morag McGrath, yn ymddeol er bod Morag am barhau i olygu'r cylchlythyr a'r cylchgrawn. Roedd yn anodd denu Ymddiriedolwyr newydd, ond nid oedd David yn cytuno y dylid lleihau'r nifer o

Ymddiriedolwyr. Teimlai bod angen i ni sicrhau ystod gyflawn o arbenigedd er mwyn mynd â'r Gymdeithas ymlaen dros yr ychydig flynyddoedd nesaf.

7 Yn dilyn penodiad y Cyfarwyddwr, teimlwyd nad oedd angen yr Is-bwyllgor Gweinyddu, er bod cyfarfodydd rheolaidd yn digwydd erbyn hyn rhwng y Swyddogion Mygedol a'r Cyfarwyddwr. Ein bwriad oedd sefydlu Is-bwyllgor Aelodaeth a Hyrwyddo er mwyn mynd i'r afael â'r her o gynyddu aelodaeth y Gymdeithas.

8 Mynegodd David ei ddiolch i holl wirfoddolwyr gweithgar y Gymdeithas; y rhai sy'n gweithio gyda Bea ar y dyddiau gwaith a drefnwyd ganddi a'r bobl sy'n rhoi eu hamser i drin y gerddi yn y Tŷ Hyll.

9 Byddai angen i ni edrych yn ofalus ar y defnydd o'r Tŷ Hyll. Gan fod gennym bellach pum aelod o staff roedd angen i ni ddarparu lleoliad gweithio da i bob un ohonynt, yn ogystal ag ateb gofynion cyfreithlon. Roedd angen i ni hefyd wneud mwy o ymdrech os oeddem am barhau â'n gweithgareddau ar yr un lefel.

10 Byddai dyfodol maes awyr Llanbedr yn parhau i fod yn arwyddocaol. Yn y sesiwn holi ac ateb yn CBC y llynedd mynegwyd pryder unwaith eto am sŵn awyrennau a'r pwysau ar aelodau i wneud rhywbeth ynglŷn â hyn. Yn y gorffennol nid oeddem wedi llwyddo i wneud dim ynglŷn â hedfan militaraidd o Fali'r RAF, ond roeddem wedi llwyddo i berswadio gwesty rhag cynnal raliau hofrenyddion.

11 Yn erbyn y cefndir hwn teimlai'r Ymddiriedolwyr bod angen i ni ymateb i'r cynnig am faes awyr masnachol yn Llanbedr. Roeddem yn amau nad oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) wedi rhoi ystyriaeth i'r ffaith fod Llanbedr mewn Parc Cenedlaethol. Yn Adran 62 o Ddeddf Amgylchedd 1995 mae'n ofynnol i lywodraeth ganolog a chyrff cyhoeddus eraill ystyried pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Nid oeddem yn credu bod maes awyr masnachol yn cydymffurfio gyda'r pwrpasau hynny. Nid oeddem wedi derbyn atebion boddhaol oddi wrth LICC ynglŷn â pha weithgareddau oedd yn cael eu cynnig, ac roedd yn ymddangos nad oedd trafodaethau wedi eu cynnal gyda phrif bobl y Parc. Roedd rhan o'r maes awyr yn SDdGA, roedd wrth ymyl Gwarchodfa Natur Genedlaethol ac ardal a ddynodwyd gan Ewrop fel Ardal Cadwraeth Arbennig. Mae'n ymddangos nad oedd y dynodiadau hyn wedi eu hystyried. Roeddem yn gobeithio y byddai LICC yn rhoi gwir ystyriaeth i'r achos drwy wneud cais am ganiatâd cynllunio.

12 Cafwyd un llwyddiant bychan cyn hynny. Roedd Pwyllgor Deisebau Cynulliad Cymru wedi ystyried e-ddeiseb y Gymdeithas yn mynegi pryder am y cynnig, ac wedi penderfynu cynnal gwrandawriad ar 16 Hydref. Byddai hyn yn rhoi cyfle i'r Gymdeithas gyflwyno eu hachos.

13 Roedd Cynhadledd yr Ucheldir wedi ei gohirio o fis Gorffennaf hyd 28 Mawrth 2009. O ganlyniad byddai mwy o wybodaeth ar newidiadau a fyddai'n effeithio ar ucheldir Eryri ar gael. Roedd John Lloyd Jones, Cadeirydd CCGC, wedi cytuno i gadeirio'r gynhadledd a gobeithiwn y byddai'r gynhadledd yn gwneud cyfraniad pwysig i ffurfiant polisi ar ucheldiroedd Eryri.

14 Ymysg y gweithgareddau eraill roedd:

- a) seminar ar yr Allwedd Werdd i'w chynnal gan APC, gyda'r ddau Gyngor Sir yn bresennol, ar 28 Hydref. Roeddem yn gobeithio cael cyfle i ddylanwadu ar y farn bresennol.
- b) ar 14 Tachwedd roedd APC yn bwriadu cyflwyno cynllun rheolaeth drafft a Chynllun Datblygu Lleol i Fforwm Eryri. Roedd y CDLI yn hwyr iawn yn ymddangos ac felly mewn ffordd roedd APC wedi bod heb gynllun gweithredol;
- c) roedd y wefan yn cael ei hailgynllunio, ac yn y dyfodol byddai aelodau'n gallu ymuno ar-lein;
- d) roedd y Gymdeithas yn sicrhau bod cyfleuster pensiwn ar gael i staff (sy'n ofynnol i gorff gyda phump neu fwy o staff);
- e) roedd taflen ar y Parc yn cael ei chynhyrchu ynghyd ag APC, gyda nawdd gan CCGC;
- f) roeddem wedi rhoi tri mynegiant o ddiddordeb gerbron am arian o gronfa CAE APC (ar gyfer datblygu cynaliadwy); roedd un yn ymwneud â lleihau ôl-troed carbon hen adeiladau yn Eryri, gan ddefnyddio'r Tŷ Hyll fel enghraifft; byddai'r ail yn gweithio tuag at waredu bagiau plastig yn y Parc Cenedlaethol, gan annog pobl i ddefnyddio bagiau eraill a hyrwyddo'r Gymdeithas ac APC; byddai'r trydydd yn ymchwilio i well rheolaeth gwastraff gan y diwydiant twristiaeth yn Eryri.
- g) roedd agoriad Hafod Eryri wedi ei ohirio hyd 2009; disgwylir y bydd diddordeb rhyngwladol yn ogystal â chenedlaethol.

15 Gorffennodd David gyda rhai sylwadau personol, wedi 30 mlynedd gyda'r Gymdeithas. Roedd yn dal wedi ymrwmo i Eryri a'r Gymdeithas; roedd yn gobeithio y byddai'r aelodaeth yn cynyddu yn y dyfodol ac yn gofidio nad oedd yr aelodaeth wedi tyfu mwy. Roedd yn falch bod nifer o Ymddiriedolwyr newydd yn sefyll yn yr etholiad a bod rhai'n dychwelyd. Soniodd ei fod wedi ei ysbrydoli'n wreiddiol gan Esme Kirby a'i fod yn ddiolchgar iddi. Diolchodd hefyd i nifer o bobl am eu cymorth, yn cynnwys Aneurin Phillips, Caerwyn Roberts a David Archer. Ei obaith oedd y byddai'r berthynas gwaith dda rhwng y Gymdeithas ac APC yn parhau.

16 Gwnaeth Sue Townsend sylwadau ar fater Llanbedr a'r rhesymau pam yr oedd YDCW wedi torri ei chwys ei hun. Roeddent wedi rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Deisebau, a hefyd wedi trafod gydag Elfyn Llwyd AS a Dafydd Elis-Thomas. Nid oeddynt wedi derbyn eglurhad gan LICC; roedd gweinidogion wedi nodi'r Adolygiad Barnwrol arfaethedig gan y Gymdeithas fel rheswm dros beidio ag ymateb i gwestiynau. Roedd yr YDCW mewn cyswllt a'r Dirprwy Prif Weinidog, a oedd wedi eu gwahodd i roi awgrym o beth oedd y materion penodol y dylai eu cymryd i ystyriaeth o ran ei gofynion

statudol ynglyn a chynlluniau'r maes awyr. Roedd YDCW wedi derbyn y gwahoddiad hwn a wedi gofyn a oedd o'n fodlon bod y broses wedi ei dilyn o'r adroddiad KPMG drafft ar dyfodol y maes awyr i awgrymiadau presennol ynglyn a'r ffordd ymlaen yn unol a'i gyfrifoldebau statudol. Roedd yn aros am ateb. Fodd bynnag roedd y maes awyr yn safle maes brown a roedd wedi ei cael adnabod yn y Fframwaith Adfywiad Cynaliadwy, 2008, ar gyfer y Cynllun Gofodol i Gymru Canol fel pwysig ar gyfer adfywiad ardal Meirionnydd.

17 Wrth ymateb pwysleisiodd David Firth nad oedd y Gymdeithas yn erbyn datblygiad a'i fod yn siomedig na chafwyd ymateb ar y cyd yn y lle cyntaf. Soniodd am lwyddiant gwrthwynebu ffordd osgoi Troeon Padog ar yr A5 lle'r oedd gweithredu ar y cyd wedi llwyddo, er nad oedd y mater wedi sicrhau aelodau newydd i'r Gymdeithas. Sicrhaodd David y cyfarfod bod y Gymdeithas yn cydweithio gydag eraill, ond ei bod wedi gorfod gweithredu ar frys oherwydd roedd y les 125-mllynedd ar y maes awyr ar fin cael ei arwyddo gan Kemble.

### **Adroddiad y Trysorydd**

18 Cyflwynodd Cyril Park ei adroddiad yn gryno. Nid aeth i fanylder ynglŷn â gweithgareddau sefydledig. Dywedodd bod datblygiad gweithgareddau'r Gymdeithas wedi ei sicrhau ar y ffin drwy realeiddio enillion cyfalaf ar ddaliadau. Hyd ddiwedd y flwyddyn flaenorol roedd hwn wedi bod yn ddull gofalus ond bellach roedd anhrefn ariannol wedi effeithio ar y portffolio; efallai bod buddsoddiadau gyda gwerth o oddeutu £300k bellach werth oddeutu £200k.

19 Roedd y Gymdeithas yn gallu cynnal ei gweithgareddau ar hyn o bryd ond roedd angen rhywfaint o ryddid i weithredu. Roedd y portffolio'n cynnwys daliadau uniongyrchol mewn cwmnïau yn y DU, yn seiliedig ar yr egwyddor o ddaliadau tymor hir. I raddau roedd y Gymdeithas wedi buddsoddi mewn banciau a sefydliadau ariannol y DU, ac yn y pen draw dyma'r buddsoddiad gwannaf, er y gobeithir y bydd y sefyllfa'n gwella. Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Trysorydd bod portffolio'r Gymdeithas hyd ganol yr wythnos honno wedi cynnwys daliad yn AIG International, ond roedd hwn wedi ei realeiddio erbyn hyn yn unol â chyngor Barclays.

20 Rhoddwyd cynnig gerbron gan Trefor Owen i fabwysiadu adroddiad blynyddol 2007-08, eiliwyd gan Jeff Biggs, ac fe'i derbyniwyd yn ddiwrthwynebiad.

### **Penodiad archwilwyr annibynnol**

21 Cynigiodd Cyril Park bod TiernayFedrick yn cael eu penodi fel archwilwyr annibynnol y Gymdeithas, eiliwyd gan David Lewis, ac fe'i derbyniwyd yn ddiwrthwynebiad.

### **Ethol swyddogion**

22 Etholwyd y canlynol:

Llywydd - John Disley  
Is-lywyddion - Eileen Evans, Warren Martin, Syr Simon Jenkins, Syr John Houghton  
Cadeirydd - David Lewis  
Is-gadeirydd - Margaret Thomas  
Ysgrifennydd - Katherine Himsworth  
Trysorydd - Pat Clayton

Pwyllgor Gwaith: Netti Collister, Rob Collister, Rod Gritten, Liz Roberts, David Firth

### **Cynnig “Bod y Pwyllgor Gwaith yn cael ei awdurdodi i greu Corff Corfforedig Elusennol er mwyn symud gwaith y Gymdeithas ymlaen ac i adrodd ar gynnydd i GBC 2009”**

24 Eglurodd David Firth bod angen cyfyngu ar gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr drwy symud statws y Gymdeithas i Gorff Corfforedig Elusennol. Roedd deddfwriaeth i alluogi hyn wedi ei basio. Roedd oedi wedi digwydd yn y cynigion manwl – roedd angen nawr i'r Pwyllgor Gwaith edrych ar y cynigion presennol sydd i'w trafod.

Derbyniwyd y cynnig.

### **Unrhyw Fusnes Arall**

25 Nid oedd unrhyw fusnes arall.

26 Yn olaf gwnaeth Rob Owen ddatganiad yn y Gymraeg, gan ddiolch i bawb am ddod i gefnogi'r Gymdeithas, yn enwedig pobl leol. Teimlai rhai nad oedd cynrychiolaeth ddigonol gan bobl leol yn y Gymdeithas, ond roedd pob aelod yn werthfawr pwy bynnag yr oeddynt, a'i ddymuniad oedd diolch i bob Ymddiriedolwr a gwirfoddolwr, oherwydd hebddynt byddai'r Gymdeithas yn llawer tlotach.

Yna cyflwynodd John Disley anrhegion i Cyril Park, a oedd yn ymddeol fel Trysorydd ar ôl 12 mlynedd, ac i David Firth, a oedd yn ymddeol wedi tair blynedd arall fel Cadeirydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.35.

Mis Hydref 2009